Pennod II
Rheoliadau

# RHEOLIDADAU YN YMWNEUD Â'R CORFF LLYWODRAETHOL

# REGULATIONS RELATING TO THE GOVERNING BODY

Chapter II
Regulations

## PENNOD II

## RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â'R CORFF LLYWODRAETHOL

**Rhan I: Aelodaeth y Corff Llywodraethol**
1 y Deoniaid
2 Archddiaconiaid
3 Aelodau yn rhinwedd swydd
4 Aelodau cyfetholedig
5 Aelodau etholedig
6
7

**Rhan II: Hyd Aelodaeth**
8
9
10
11
12
13
14
15

**Rhan III: Cyfarfodydd**
16
17
18
19
20
21
22
23
24
25
26
27
28
29
30
31
32

**Rhan IV: Darpariaethau yn dilyn Ethol yr Archesgob**
33

# CHAPTER II

# REGULATIONS RELATING TO THE GOVERNING BODY

**Part I: Composition of the Governing Body**

1 The Deans
2 Archdeacons
3 Ex-officio Members
4 Co-opted Members
5 Elected Members
6
7

**Part II: Duration of Memberships**

8
9
10
11
12
13
14
15

**Part III: Meetings**

16
17
18
19
20
21
22
23
24
25
26
27
28
29
30
31
32

**Part IV: Provisions consequent upon the Election of the Archbishop**

33

**Part V:** **Pwyllgor Sefydlog y Corff Llywodraethol**

34 Aelodaeth
35 Cyfarfodydd
36 Galluoedd a Dyletswyddau
37

**Part VI:** **Pwyllgorau eraill y Corff Llywodraethol**

38
39

**Part V: The Standing Committee of the Governing Body**

34 Composition
35 Meetings
36 Powers and Duties
37

**Part VI: Other committees of the Governing Body**

38
39

# Rheoliadau yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol

Yn unol â'i alluoedd o dan Bennod II y Cyfansoddiad, y mae'r Corff Llywodraethol trwy hynyma yn gwneud y rheoliadau a ganlyn o dan y teitl "Rheoliadau yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol" a draethir fel a ganlyn:

Rhan I: Aelodaeth y Corff Llywodraethol

Rhan II: Hyd Aelodaeth

Rhan III: Cyfarfodydd

Rhan IV: Darpariaethau yn dilyn Ethol yr Archesgob

Rhan V: Pwyllgor Sefydlog y Corff Llywodraethol

Rhan VI: Pwyllgorau eraill y Corff Llywodraethol

## Rhan I: Aelodaeth y Corff Llywodraethol

*1. Y Deoniaid*

1.1 Etholir y tri Deon y cyfeirir atynt ym Mhennod II adran 3(*b*) gan Ddeoniaid Eglwys Gadeiriol pob Esgobaeth yn yr Eglwys yng Nghymru yn unol â'r weithdrefn a ganlyn:

1.1.1 heb fod yn ddiweddarach na phymtheg mis cyn cychwyn y cyfnod o dair blynedd y mae'r etholiad yn berthnasol iddo, bydd Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol yn hysbysu'r Deon a fu hwyaf yn ei swydd o blith Deoniaid Eglwysi Cadeiriol pob Esgobaeth yn yr Eglwys yng Nghymru fod etholiad i'w gynnal ac o'r nifer i'w hethol;

1.1.2 cynhelir yr etholiad hwn heb fod yn ddiweddarach na 31 Ionawr yn y flwyddyn cyn y cyfnod o dair blynedd y mae'n berthnasol iddo a bydd y Deon a fu hwyaf yn ei swydd, ar ôl ymgynghori â'r Deoniaid i gyd, yn trefnu'r etholiad ac yn penderfynu ym mha fodd i'w gynnal;

1.1.3 bydd y Deon a fu hwyaf yn ei swydd yn hysbysu Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol o ganlyniad yr etholiad o fewn 28 diwrnod i ddyddiad ei gynnal;

1.1.4 os methir cynnal yr etholiad hwn neu hysbysu Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol o'r canlyniad, bydd y Llywydd yn enwebu'r tri Deon y cyfeirir atynt ym Mhennod II adran 3(*b*); ac

1.1.5 ni fydd methiant ar ran y Deoniaid i ethol tri o'u plith yn aelodau nac i hysbysu Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol o ganlyniad etholiad o'r fath, na methiant ar ran y Llywydd i ddefnyddio ei allu i enwebu, yn rhwystro'r Corff Llywodraethol rhag mynd ymlaen â'i waith nac yn annilysu ei drafodion.

1.2 Bydd y Deoniaid a etholir yn dal y swydd am gyfnod o dair blynedd a byddant yn gymwys i'w hailethol.

# Regulations relating to the Governing Body

In exercise of its powers under Chapter II of the Constitution the Governing Body hereby makes the following regulations entitled “Regulations relating to the Governing Body” set out as follows:

Part I: Composition of the Governing Body

Part II: Duration of Membership

Part III: Meetings

Part IV: Provisions consequent upon the election of the Archbishop

Part V: Standing Committee of the Governing Body

Part VI: Other committees of the Governing Body

## Part I: Composition of the Governing Body

*1. The Deans*

1.1 The three Deans referred to in Chapter II section 3(*b*) shall be elected by the Deans of the Cathedral of each Diocese in accordance with the following procedure:

1.1.1 not later than fifteen months before the commencement of the triennium to which the election relates, the Secretaries of the Governing Body shall notify the Dean who is the first in seniority of the Deans of the Cathedral of each Diocese that an election is to be held and the numbers to be elected;

1.1.2 such election shall be held no later than the 31st January in the year preceding the triennium to which it relates and the Dean who is the first in seniority shall arrange such election and shall determine the manner in which it shall be held in consultation with all the Deans;

1.1.3 the Dean who is first in seniority shall notify the Secretaries of the Governing Body of the result of the election within 28 days from the date it is held;

1.1.4 in the event of failure to hold such election or to notify the Secretaries of the Governing Body of the result, the President shall nominate the three Deans referred to in Chapter II section 3(*b*); and

1.1.5 the failure of the Deans to elect three of their number as members or to notify the Secretaries of the Governing Body of the result of such election, or the failure of the President to exercise his power of nomination, shall not prevent the Governing Body proceeding with the despatch of business nor invalidate its proceedings.

1.2 The Deans elected shall hold office for a term of three years and shall be eligible for re-election.

*2. Archddiaconiaid*

2.1 Bydd yr Archddiaconiaid a enwebir gan Esgobion eu hesgobaethau yn unol â Phennod II adran 3(*c*) yn dal y swydd am gyfnod o dair blynedd a byddant yn gymwys i'w henwebu am gyfnodau pellach.

2.2 Ni fydd methiant ar ran Esgob esgobaeth i enwebu Archddiacon yn unol â Phennod II adran 3(*c*) yn rhwystro'r Corff Llywodraethol rhag mynd ymlaen â'i waith nac yn annilysu ei drafodion.

*3. Aelodau yn rhinwedd swydd*

Onid ydynt eisoes yn aelodau yn rhinwedd swydd o'r Corff Llywodraethol o dan ryw ddarpariaeth arall yn y Cyfansoddiad, bydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr yn aelodau yn rhinwedd swydd o'r Corff Llywodraethol.

*4. Aelodau cyfetholedig*

4.1 Bydd y Corff Llywodraethol yn cyfethol yn aelodau:

4.1.1 chwe Chlerig, ac o leiaf dri ohonynt yn Glerigion di-fywoliaeth yng ngwasanaeth pensiynol yr Eglwys yng Nghymru ar adeg eu cyfethol. Ni fydd Clerig di fywoliaeth a gyfetholwyd felly yn parhau yn aelod o'r Corff Llywodraethol ond tra bydd yn parhau'n Glerig yn yr Eglwys yng Nghymru;

4.1.2 deuddeg person lleyg ac o leiaf chwech ohonynt o dan ddeg ar hugain oed ar adeg eu cyfethol.

4.2 Llenwir unrhyw le gwag achlysurol a gyfyd am fod aelod cyfetholedig wedi ymddiswyddo, wedi ei wahardd neu wedi marw trwy i'r Corff Llywodraethol gyfethol rhywun gyda chymwysterau aelodaeth tebyg i rai'r sawl y cyfetholir yn ei le.

*5. Aelodau etholedig*

5.1 Ar gyfer ethol aelodau clerigol a lleyg, gall Cynhadledd pob Esgobaeth:

5.1.1 ethol aelod o'r esgobaeth yn ei chyfanrwydd; neu

5.1.2 ffurfio rhanbarthau etholiadol yn cynnwys archddiaconiaethau, deoniaethau bro neu blwyfi a dosrannu'r nifer o gynrychiolwyr sydd i'w hethol o bob rhanbarth.

5.2 Bydd Cynhadledd pob Esgobaeth yn llunio rhestrau atodol o Glerigion a lleygion i lenwi unrhyw leoedd gwag achlysurol yn ôl y drefn y gosododd y Gynhadledd hwy ar y rhestrau.

*2. Archdeacons*

2.1 The Archdeacons nominated by their Diocesan Bishops in accordance with Chapter II section 3(c) shall hold office for a term of three years and shall be eligible for renomination for further terms.

2.2 The failure of a Diocesan Bishop to nominate an Archdeacon in accordance with Chapter II section 3(c) shall not prevent the Governing Body proceeding with despatch of business nor invalidate its proceedings.

*3. Ex-officio members*

Unless they are already *ex-officio* members of the Governing Body under some other provision of the Constitution, the Chairman and Deputy Chairman of the Representative Body shall be *ex-officio* members of the Governing Body.

*4. Co-opted members*

4.1 The Governing Body shall co-opt as members:

4.1.1 six Clerics of whom at least three shall be unbeneficed Clerics in pensionable service in the Church in Wales at the time of their co-option. An unbeneficed Cleric so co-opted shall continue membership of the Governing Body only while such Cleric remains a Cleric in the Church in Wales;

4.1.2 twelve lay persons of whom at least six shall be under the age of thirty years at the time of their co-option.

4.2 Any casual vacancy created by the resignation, expulsion, disqualification or death of a co-opted member, shall be filled by the Governing Body co-opting a person who shall possess qualifications for membership similar to those possessed by the member in whose place such person is co-opted.

*5. Elected Members*

5.1 For the election of clerical and lay members, each Diocesan Conference:

5.1.1 may elect a member from the diocese as a whole; or

5.1.2 may form electoral districts from archdeaconries, area deaneries or parishes and may apportion the number of representatives to be elected from each such district.

5.2 The Diocesan Conference shall make supplemental lists of Clerics and lay persons from which casual vacancies shall be filled according to the order in which they are placed on such lists by the Conference.

5.3 Cynhelir pob etholiad a gwneir pob rhestr mewn pryd i'r aelodau a etholwyd gymryd eu swydd yn union wedi i dymor swydd yr aelodau sy'n ymddeol ddod i ben, a rhaid i'r Corff Llywodraethol ddarparu yn gymwys ar gyfer hynny.

5.4 Os digwydd i aelod etholedig farw, neu gael ei ddiswyddo neu fynd yn anghymwys, llenwir ei le o'r rhestr atodol briodol o aelodau'r esgobaeth y bu'n eistedd drosti.

6. Os bydd unrhyw newid yng nghynrychiolaeth esgobaeth ar y Corff Llywodraethol, bydd Esgob yr esgobaeth honno yn hysbysu hynny i Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol.

7. Ni fydd methiant ar ran unrhyw esgobaeth i ethol neu ddychwelyd aelodau, clerigol na lleyg, nac i lunio neu anfon rhestrau atodol, na methiant ar ran y Corff Llywodraethol i arfer ei allu i gyfethol yn rhwystro'r Corff Llywodraethol rhag mynd ymlaen â'i waith nac yn annilysu ei drafodion.

## Rhan II: Hyd Aelodaeth

8. Bydd unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethol sy'n ymuno â chorff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru ac unrhyw aelod yn rhinwedd swydd o'r Corff Llywodraethol sy'n peidio â dal y swydd yr oedd yn aelod o'i herwydd yn peidio o hynny ymlaen â bod yn aelod o'r Corff Llywodraethol.

9.1 Bydd aelodaeth aelod etholedig neu gyfetholedig o'r Corff Llywodraethol sy'n berson lleyg yn dod i ben ar ei ben-blwydd yn bymtheg a thrigain oed, a bydd aelodaeth aelod etholedig neu gyfetholedig o'r Corff Llywodraethol sy'n Glerig yn dod i ben pan fo'n ymddeol neu pan fo'n cyrraedd ei b/phen-blwydd yn ddeg a thrigain oed, pa un bynnag a ddaw gyntaf, ond os digwydd ymddeoliad neu ben-blwydd o'r fath yn ystod cyfarfod o'r Corff Llywodraethol neu unrhyw un o'i bwyllgorau bydd yr aelodaeth yn parhau hyd ddiwedd y cyfarfod. At bwrpas y rheoliad hwn, ystyrir bod cyfarfod a ohiriwyd hyd ddyddiad pellach na thrannoeth yn gyfarfod a ddaeth i ben.

9.2 Pan fo gofyn i rywun, er mwyn dal swydd, fod yn "gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol", ni fydd y ffaith bod y cyfryw un dros bymtheg a thrigain mlwydd oed os yw'n berson lleyg neu dros ddeg a thrigain oed os yw'n Glerig yn ei atal rhag dal y swydd honno.

9.3 Ni chymhwysir paragraph 9.1 at aelodau yn rhinwedd swydd.

5.3 Each election and the making of such lists shall be held and made respectively in time to enable the newly elected members to take office immediately on the expiration of the term of office of the members then retiring, and the Governing Body shall make due provision for such purposes.

5.4 In the event of the death, removal or disqualification of any elected member his or her place shall be filled from the appropriate supplemental list of members of the diocese for which such member sat.

6. In the event of any change taking place in the representation of a diocese on the Governing Body, the Bishop of such diocese shall cause the same to be notified to the Secretaries of the Governing Body.

7. The failure of any diocese to elect or return members, clerical or lay, or to make and forward supplemental lists, or the failure of the Governing Body to exercise its powers of co-option, shall not prevent the Governing Body from proceeding to despatch of business, nor invalidate its proceedings

## Part II: Duration of Membership

8. Any member of the Governing Body who joins a religious body which is not in communion with the Church in Wales and any *ex-officio* member of the Governing Body who ceases to hold the office in respect of which he or she became a member shall thereupon cease to be a member of the Governing Body.

9.1 The membership of an elected or co-opted member of the Governing Body who is a lay person shall cease on his or her seventy-fifth birthday and the membership of an elected or co-opted member of the Governing Body who is a Cleric shall cease upon retirement or upon reaching his or her seventieth birthday whichever is the earlier, save that if such retirement or birthday occurs during the currency of a meeting of the Governing Body or any committee thereof his or her membership shall continue nevertheless until the termination of such meeting. A meeting at any time adjourned beyond the then following next day shall be deemed to be terminated for the purpose of this regulation.

9.2 Where a person, in order to hold some office, is required to be “qualified to be a member of the Governing Body”, the fact that such person is over seventy-five years of age if that person is a lay person or the fact that such person is over seventy years of age if that person is a Cleric shall not preclude him or her from holding such office.

9.3 Paragraph 9.1 shall not apply to *ex-officio* members.

10.1 Ni fydd aelod clerigol o'r Corff Llywodraethol, a etholwyd dros yr esgobaeth yr oedd yn gwasanaethu ynddi ar y pryd, yn dal yn aelod ond tra bydd yn gwasanaethu yn yr esgobaeth honno neu'n preswylio ynddi.

10.2 Ni fydd aelod lleyg o'r Corff Llywodraethol, a etholwyd dros yr esgobaeth yr oedd yn preswylio ynddi ar y pryd, yn dal yn aelod ond tra bydd yn preswylio yn yr esgobaeth honno, ac eithrio na chymhwysir y paragraff hwn at un sy'n dal swydd yn yr esgobaeth neu y mae ei enw ar rôl etholwyr un o'i phlwyfi.

11. Yn unol â Rheoliadau 4, 9.1 a 10, bydd pawb a etholwyd neu a gyfetholwyd yn aelod o'r Corff Llywodraethol yn dal y swydd am gyfnod o dair blynedd.

12. Yn unol â gofynion Rheoliadau 4, 9.1 a 10, yn ôl fel y digwydd, bydd person a benodir i lenwi lle gwag achlysurol ymhlith yr aelodau etholedig neu gyfetholedig yn dal y swydd, ni waeth beth fo darpariaethau'r rheoliadau hynny hyd at y dyddiad pan oedd yr aelod y mae'r person hwnnw yn cymryd ei le i fod i ymddeol.

13. Ar 3l Rhagfyr bob blwyddyn bydd traean yr aelodau a etholwyd gan bob esgobaeth a thraean yr aelodau cyfetholedig yn ymddeol, ac yn eu lle etholir gan bob esgobaeth a chyfetholir gan y Corff Llywodraethol yr un nifer o aelodau, ar yr amod bob amser yr etholir Clerig i olynu Clerig a pherson lleyg i olynu person lleyg.

14. Gall unrhyw aelod etholedig, trwy hysbysu mewn ysgrifen Esgob yr esgobaeth yr etholwyd ef drosti, ymddiswyddo o'i sedd ar y Corff Llywodraethol, a phan dderbynia'r Esgob ymddiswyddiad o'r fath daw sedd yr aelod hwnnw yn wag ac fe'i llenwir o restr atodol briodol yr esgobaeth honno.

15. Gall unrhyw aelod cyfetholedig, trwy anfon hysbysiad mewn ysgrifen wedi ei gyfeirio at Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol, ymddiswyddo o'i sedd ar y Corff Llywodraethol.

## Rhan III: Cyfarfodydd

16.1 Cynullir holl gyfarfodydd y Corff Llywodraethol yn enw'r Llywydd a thrwy ei awdurdod, a bydd ef yn cyflwyno'i orchymyn i Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol i alw'r Corff Llywodraethol trwy wŷs ar gyfer yr amser ac i'r lle a bennir gan y Corff Llywodraethol, gan ei Bwyllgor Sefydlog neu gan y Llywydd, yn ôl fel y digwydd.

16.2 Wrth agor pob eisteddiad rhaid i'r Ysgrifenyddion ardystio fod y gorchymyn wedi'i weithredu'n briodol.

10.1 A clerical member of the Governing Body, elected for the diocese in which he or she was then serving, shall continue a member only whilst serving or residing in such diocese.

10.2 A lay member of the Governing Body elected for the diocese in which he or she was then residing, shall continue a member only whilst residing in such diocese, save that this paragraph shall not apply to one holding diocesan office, or whose name is on the electoral roll of a parish in such diocese.

11. Subject to the respective provisions of Regulations 4, 9.1 and 10, every person elected or co-opted to membership of the Governing Body shall hold office for a term of three years.

12. Subject to compliance with the requirements of Regulation 4, 9.1 and 10 as the case may be, a person appointed to fill a casual vacancy among the elected or co-opted members shall hold office until the date when the member whom such person replaces would have been due to retire apart from the provisions of those respective regulations.

13. On 3lst December in every year one third of the members elected by each diocese and one third of the co-opted members shall retire, and in their stead like numbers of members shall be elected by each diocese and co-opted by the Governing Body, provided always that a Cleric shall be elected or co-opted to succeed a Cleric and a lay person to succeed a lay person.

14. Any elected member may, by notice in writing addressed to the Bishop of the diocese for which such member has been elected, resign his or her seat on the Governing Body, and on receipt by the Bishop of such resignation the seat of such member shall become vacant and his or her place shall be filled from the appropriate supplemental list of members of such diocese.

15. Any co-opted member may, by notice in writing addressed to the Secretaries of the Governing Body, resign his or her seat on the Governing Body.

## Part III: Meetings

16.1 All meetings of the Governing Body shall be convened in the name and by the authority of the President, who shall deliver his mandate to the Secretaries of the Governing Body to summon by citation the Governing Body for the time and to the place fixed by the Governing Body, the Standing Committee thereof or the President, as the case may be.

16.2 At the opening of every meeting the Secretaries shall certify the due execution of the mandate.

17. Yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion penodol yn y Cyfansoddiad, Cadeirydd y Corff Llywodraethol fydd:

17.1 y Llywydd neu, yn ei absenoldeb, yr Esgob Cadeiriol nesaf ei flaenoriaeth sy'n bresennol ac yn fodlon gweithredu; neu

17.2 y sawl a ddewisir gan y Llywydd neu, yn ei absenoldeb, gan yr Esgob Cadeiriol nesaf ei flaenoriaeth sy'n bresennol, o blith nifer o Gadeiryddion a gymeradwywyd gan y Corff Llywodraethol.

18. Bydd o leiaf un cyfarfod cyffredin o'r Corff Llywodraethol ymhob blwyddyn ar yr amser ac yn y lle a benodir o bryd i'w gilydd i'r diben hwnnw gan y Corff Llywodraethol.

19. Bydd gan y Pwyllgor Sefydlog y gallu i newid yr adeg a'r lle a bennwyd ar gyfer cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol, ac i osod adeg a lle arall yn eu lle.

20. Yn union ar ôl cyfarfod cyffredin olaf y Corff Llywodraethol ym mhob blwyddyn a chyn pob etholiad mewn cynhadledd esgobaeth ar gyfer y Corff Llywodraethol yn unol a Phennod II adrannau 3 a 4, bydd Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol yn anfon i Ysgrifennydd Cynhadledd pob Esgobaeth restr yn dangos presenoldeb yr aelodau a fu'n cynrychioli'r esgobaeth honno yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol ers eu hethol.

21. Cyn pen wythnos ar ôl etholiad bydd Ysgrifennydd Cynhadledd pob Esgobaeth yn anfon i Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol enw a chyfeiriad pob aelod a etholwyd ynghyd ag enw a chyfeiriad pawb a osodwyd ar y rhestrau atodol o aelodau.

22. Os digwydd bod aelod wedi'i ethol dros fwy nag un esgobaeth, bydd Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol, cyn pen wythnos ar ôl derbyn enwau'r aelodau etholedig, yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r aelod hwnnw yn galw arno i hysbysu mewn ysgrifen cyn pen wythnos pa esgobaeth y mae'n dewis gwasanaethu drosti. Os digwydd i'r aelod fethu â hysbysu ei ddewis, bydd y Llywydd yn dewis yr esgobaeth y caiff wasanaethu drosti; ac yna llenwir sedd neu seddi yr aelod hwnnw yn unrhyw esgobaeth arall yr etholwyd ef drosti o restr atodol briodol yr esgobaeth honno.

17. Subject to any specific requirements of the Constitution, the Chairman of the Governing Body shall be:

17.1 the President or, in his absence, the Diocesan Bishop next in order of precedence present and willing to act; or

17.2 a person chosen by the President or, in his absence, by the Diocesan Bishop next in order of precedence and present, from a panel of Chairmen approved by the Governing Body.

18. There shall be at least one ordinary meeting of the Governing Body in every year at such time and place as shall from time to time be prescribed by the Governing Body.

19. The Standing Committee shall have power to alter the time and place fixed for the next meeting of the Governing Body and to substitute another time and place.

20. The Secretaries of the Governing Body shall, immediately following the last ordinary meeting of the Governing Body in each year and before each election of members of the Governing Body by the Diocesan Conference in accordance with Chapter II sections 3 and 4 send to the Secretary of each Diocesan Conference a list of the attendances of the members representing the diocese at meetings of the Governing Body since their election.

21. The Secretary of each Diocesan Conference within one week after an election shall return to the Secretaries of the Governing Body the names and addresses of all elected members together with the names and addresses of all persons who have been placed on the supplemental lists of members.

22. In the event of any member having been elected for more than one diocese, the Secretaries of the Governing Body shall, within one week of receiving the names of the elected members, give notice in writing to such member, calling on him or her to signify in writing within one week his or her choice of the diocese for which he or she will serve. In the event of such member failing so to signify his or her choice, the President shall choose the diocese for which he or she shall serve, and thereupon the seat or seats of such member for any other diocese or dioceses for which he or she shall have been elected shall be filled up from the appropriate supplemental list of members of such diocese or dioceses.

23.1 Saith wythnos cyn cyfarfod cyffredin o'r Corff Llywodraethol bydd yr Ysgrifenyddion yn anfon gwŷs y Llywydd mewn ysgrifen at bob aelod ohono yn gorchymyn iddynt fod yn bresennol ar yr amser ac yn y lle a benodwyd.

23.2 Bydd unrhyw aelod neu aelodau sy'n dymuno cyflwyno cynnig yn y cyfarfod hwnnw, ac eithrio trwy ganiatâd arbennig y Corff Llywodraethol, yn rhoi rhybudd ohono, ynghyd ag enw aelod sydd wedi cytuno i eilio'r cynnig, i'r Ysgrifenyddion o leiaf bum wythnos cyn dechrau'r cyfarfod.

23.3 Anfonir agenda cyfarfod cyffredin o'r Corff Llywodraethol at bob aelod ohono bedwar diwrnod ar ddeg cyn dechrau'r cyfarfod hwnnw.

24. Bydd Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol yn bresennol ym mhob cyfarfod ohono; byddant yn cadw cofnodion o'i weithrediadau, yn derbyn rhybuddion o filiau a gynigir a rhybuddion o gynigion a materion eraill, ac yn paratoi agenda ar gyfer y cyfarfodydd yn ôl cyfarwyddyd y Llywydd.

25. Bydd y Llywydd, gyda chyngor y Pwyllgor Sefydlog, yn penderfynu ym mha drefn y gosodir ar agenda pob cyfarfod cyffredin y materion y mae'n dymuno eu dwyn gerbron y Corff Llywodraethol a'r materion y derbyniwyd rhybudd amdanynt gan aelodau; a gall benderfynu bod trafod unrhyw fater arbennig o'r fath ar ddiwrnod arbennig o'r eisteddiad.

26. Yn ddarostyngedig i Bennod II, y Rheoliadau hyn ac unrhyw reolau sefydlog a wneir o bryd i'w gilydd mewn perthynas â:

26.1 rheolir gwaith a threfn pob cyfarfod o'r Corff Llywodraethol gan y Cadeirydd; a

26.2 bydd gan y Cadeirydd y gallu i benodi aseswyr, os barna'n addas.

27. Deugain fydd corwm y Corff Llywodraethol, ac ymhlith y rheini bydd o leiaf un Esgob Cadeiriol, deuddeg clerig ac un ar bymtheg o aelodau lleyg. Os geilw unrhyw aelod sylw at y ffaith y gall nad oes corwm yn bresennol, bydd y Cadeirydd yn cyfrif y Corff Llywodraethol ac os bodlonir ef nad oes corwm bydd naill ai:

27.1 yn gohirio'r Corff Llywodraethol hyd amser ar yr un diwrnod neu drannoeth fel y barno yn addas; neu

27.2 yn gohirio'r Corff Llywodraethol yn gyffredinol fel y gall y Llywydd benderfynu sut i gynnal y cyfarfod yn y dyfodol.

23.1 Seven weeks before an ordinary meeting of the Governing Body, the Secretaries shall send the President's citation in writing to each member thereof to attend the same at the given time and place.

23.2 Any member or members desirous of proposing a motion at such meeting shall, except by special leave of the Governing Body, give notice thereof, together with the name of a member who has agreed to second such motion, to the Secretaries not later than five weeks before the commencement of the meeting.

23.3 An agenda for an ordinary meeting of the Governing Body shall be sent to each member thereof fourteen days before the commencement of such meeting.

24. The Secretaries of the Governing Body shall attend every meeting thereof, and shall keep minutes of its proceedings, receive notices of proposed bills, and notices of motion and other business, and shall prepare the agenda for the meetings, according to the instructions of the President.

25. The President shall, with the advice of the Standing Committee, decide the order of entering upon the agenda for any ordinary meeting business which he desires to bring before the Governing Body or of which notice has been received from members, and he may assign any such business to a particular day of the session.

26. Subject to Chapter II, these Regulations and to any standing orders from time to time made with reference thereto:

26.1 the business and procedure of any meeting of the Governing Body shall be regulated by the Chairman; and

26.2 the Chairman shall have power to appoint assessors, if he or she thinks fit.

27. A quorum of the Governing Body shall be forty, in which number there shall be not less than one Diocesan Bishop, twelve clerical and sixteen lay members. If any member draws attention to the fact that a quorum may not be present, the Chairman shall count the Governing Body and if satisfied that no quorum is present shall either:

27.1 adjourn the Governing Body to such time on the same or the next day as he thinks fit; or

27.2 adjourn the Governing Body generally in order that the President may decide upon the future conduct of the meeting

Os gohirir y Corff Llywodraethol fel y dywedwyd uchod, bydd y Llywydd wedyn yn penderfynu ei fod wedi ei ohirio naill ai hyd ddiwrnod (o leiaf saith wythnos yn ddiweddarach) mewn lle a benodir ganddo ef ac y rhoddir rhybudd ohono i aelodau'r Corff Llywodraethol yn y modd a osodir yn Rheoliad 23, neu heb enwi diwrnod, fel y barno ef yn addas.

28. Penderfynir pob cwestiwn nad oes a wnelo ond â'r rheolau sefydlog neu weithdrefnau gan fwyafrif o'r Corff Llywodraethol. Cadeirydd y cyfarfod fydd yn penderfynu a yw cwestiwn arbennig yn dod o dan y Rheoliad hwn.

29. Gall unrhyw aelod godi cwestiwn dan y Rheoliad diwethaf trwy roi i'r Cadeirydd yn ystod y cyfarfod rybudd ysgrifenedig o gynnig.

30.1 Gall y Llywydd, yn ôl ei ddoethineb ei hun, gyflwyno'i orchymyn i Ysgrifennydd y Corff Llywodraethol i alw trwy wŷs gyfarfod arbennig o'r Corff Llywodraethol i unrhyw ddiben a enwir; a bydd yn rhaid iddo wneud hynny pan gaiff gais ysgrifenedig oddi wrth Esgob Esgobaeth, neu gais ysgrifenedig wedi'i arwyddo gan o leiaf draean aelodau clerigol a thraean aelodau lleyg y Corff Llywodraethol.

30.2 Cynhelir cyfarfod arbennig o'r fath ar ddiwrnod heb fod yn gynharach na'r pedwerydd dydd ar ddeg ar ôl cyflwyno'r mandat ac yn y lle a benderfyno'r Llywydd.

30.3 Bydd y wŷs ar gyfer cyfarfod arbennig o'r fath yn enwi'r materion sydd i'w trafod ynddo, ac fe'i hanfonir at yr aelodau o leiaf saith niwrnod cyn y diwrnod a bennwyd ar gyfer ei gynnal.

31. Ni thrafodir mewn cyfarfod arbennig ddim ond y materion a enwyd yn y rhybudd a'i cynullodd, ond yr un fydd trefn a galluoedd cyfarfod arbennig â threfn a galluoedd cyfarfod cyffredin o'r Corff Llywodraethol.

32. Ar derfyn gwaith y Corff Llywodraethol, dilysir y trafodion a'r cofnodion gan lofnod y Cadeirydd.

## Rhan IV : Darpariaethau yn dilyn Ethol yr Archesgob

33.1 Yn y cyfarfod nesaf o'r Corff Llywodraethol ar ôl ethol a gorseddu'r Archesgob, bydd yr Esgob a fu hwyaf yn ei Esgobaeth, ac sy'n bresennol ac yn barod i weithredu, yn cymryd y gadair ac yn galw ar un o'r Ysgrifenyddion i ddangos a darllen y ddogfen sy'n hysbysu ethol a gorseddu'r Archesgob.

If the Governing Body is adjourned as aforesaid, the President shall subsequently determine that it stand adjourned either to a day (not being less than seven weeks later) and place fixed by him, which shall be notified to the members of the Governing Body in the manner prescribed in Regulation 23, or without day, as he thinks fit.

28. Any question relating only to standing orders or the conduct of business shall be decided by a majority of the Governing Body. The Chairman of the meeting shall decide whether any particular question falls within this Regulation.

29. Any question within the meaning of the last Regulation may be brought forward by any member on notice of motion in writing, handed in during the meeting to the Chairman.

30.1 The President may at his own discretion and shall at the request in writing of any Diocesan Bishop, or at the request in writing signed by not less than one third of the clerical and of the lay members of the Governing Body, deliver his mandate to the Secretaries of the Governing Body to summon by citation a special meeting of the Governing Body for any stated purpose.

30.2 Such special meeting shall be held upon a day not earlier than the fourteenth day from the date of the issue of such mandate and in such place as the President may determine.

30.3 The citation to such special meeting shall state the business to be transacted thereat, and shall be sent to all members at least seven days before the day fixed for holding the same.

31. No business shall be transacted at any special meeting other than that stated in the notice convening the same, but the procedure and powers of a special meeting shall be the same as the procedure and powers of an ordinary meeting of the Governing Body.

32. After the conclusion of the business of the Governing Body, the proceedings and minutes shall be authenticated by the signature of the Chairman.

## Part IV : Provisions consequent upon the election of the Archbishop

33.1 At the meeting of the Governing Body held next after the election and accession of the Archbishop, the senior Diocesan Bishop present and willing to act shall take the chair and shall call upon one of the Secretaries to produce and read the document notifying the election and accession of the Archbishop.

33.2 Wedi i'r ddogfen hon gael ei darllen, bydd yr Archesgob yn cymryd y gadair ac yn dweud gweddïau, yn cynnwys Gweddi'r Arglwydd a Chredo'r Apostolion.

33.3 Ar derfyn y gweddïau, bydd yr Archesgob yn mynd ymlaen â gwaith y Corff Llywodraethol.

## Rhan V: Pwyllgor Sefydlog y Corff Llywodraethol

*34. Aelodaeth*

34.1 Bydd y Corff Llywodraethol yn penodi Pwyllgor Sefydlog o'i aelodau bob tair blynedd.

34.2 Aelodau'r Pwyllgor fydd:

34.2.1 yr Esgob Cadeiriol a dau aelod (un clerig ac un aelod lleyg) o bob esgobaeth, y ddau aelod i'w henwebu gan Bwyllgor Sefydlog y Gynhadledd Esgobaethol o blith aelodau'r esgobaeth honno ar y Corff Llywodraethol;

34.2.2 Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr;

34.2.3 aelodau o'r Corff Llywodraethol (heb fod yn fwy na dau mewn nifer) y gall y Corff Llywodraethol benderfynu eu penodi ar enwebiad y Pwyllgor Sefydlog; ac

34.2.4 aelodau (heb fod yn fwy na dau mewn nifer) y gall y Pwyllgor Sefydlog benderfynu eu cyfethol.

34.3 Llenwir unrhyw le gwag achlysurol ymhlith y ddau aelod o bob esgobaeth gan Esgob yr Esgobaeth.

34.4 Yn y cyfarfod cyntaf o bob cyfnod o dair blynedd, ac fel y bo angen wedi i'r naill swydd neu'r llall fynd yn wag, bydd y Pwyllgor Sefydlog yn ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd o blith ei aelodau. Wedi hynny, os digwydd i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd fod yn absennol o unrhyw gyfarfod, bydd y Pwyllgor yn penodi aelod arall i lywyddu'r cyfarfod hwnnw.

*35. Cyfarfodydd*

35.1 Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cyfarfod o leiaf dair gwaith ym mhob blwyddyn a gall y Llywydd hefyd ei gynnull neu ymgynghori ag ef os bydd a phan fydd ef yn barnu hynny'n addas.

35.2 Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol fydd Ysgrifenyddion y Pwyllgor Sefydlog, a byddant yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor, a chadw cofnodion ohono.

35.3 Bydd Ysgrifennydd Corff y Cynrychiolwyr yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog, a chaiff siarad ond ni chaiff bleidleisio.

33.2 After the reading of such document the Archbishop shall take the chair and shall say prayers, including the Lord's Prayer and the Apostles' Creed.

33.3 At the conclusion of prayers the Archbishop shall proceed with the business of the Governing Body.

## Part V:The Standing Committee of the Governing Body

*34. Composition*

34.1 The Governing Body triennially shall appoint a Standing Committee of its members.

34.2 The Committee shall consist of:

34.2.1 the Diocesan Bishop and two members (one clerical and one lay) from each diocese, the two members to be nominated by the Standing Committee of the Diocesan Conference from among the Governing Body members from that diocese;

34.2.2 the Chairman and Deputy Chairman of the Representative Body;

34.2.3 such members of the Governing Body (not exceeding two in number) as the Governing Body may decide to appoint, on the nomination of the Standing Committee; and

34.2.4 such persons (not exceeding two in number) as the Standing Committee may decide to co-opt.

34.3 Any casual vacancy among the two members from each diocese shall be filled by the Diocesan Bishop.

34.4 At the first meeting during each triennial period, and as necessary following any vacancy in either office, the Standing Committee shall elect a Chairman and Vice-Chairman from among its members. Thereafter, in the event of the absence of the Chairman and the Vice-Chairman from any meeting, the Standing Committee shall appoint another member to preside at that meeting.

*35. Meetings*

35.1 The Standing Committee shall meet at least three times in every year and may also be convened and consulted by the President if and when he thinks fit.

35.2 The Secretaries of the Governing Body shall be the Secretaries of the Standing Committee and shall attend and keep the minutes of every meeting of the Standing Committee.

35.3 The Secretary of the Representative Body shall attend every meeting of the Standing Committee and may speak but not vote.

*36. Galluoedd a Dyletswyddau*

36.1 Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cynghori'r Corff Llywodraethol ar faterion o bolisi, gan gynnwys:

36.1.1 cynllunio hir-dymor a pherthynas cynllunio o'r fath ag adnoddau;

36.1.2 sefydlu blaenoriaethau mewn defnyddio adnoddau;

36.1.3 cymeradwyo cyllidebau a baratowyd gan Gorff y Cynrychiolwyr.

36.2 Bydd gan y Pwyllgor Sefydlog y gallu i wneud rheoliadau ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru yn unol â'r weithdrefn at wneud rheoliadau a bennir o bryd i'w gilydd gan y Corff Llywodraethol.

36.3 Yn ddarostyngedig i uwch reolaeth y Corff Llywodraethol a darpariaethau'r paragraff hwn a pharagraffau 36.4 a 36.5, bydd gan y Pwyllgor y gallu i reoli ei weithdrefnau, gan gynnwys penodi gweithgorau ac is-bwyllgorau o'i aelodau, a chaiff y Pwyllgor, o bryd i'w gilydd ac fel y mae'n barnu'n addas, gyfethol unrhyw berson neu bersonau i wasanaethu ar weithgor neu is-bwyllgor o'r fath.

36.4 Bydd y Pwyllgor yn penodi Is-Bwyllgor Busnes, a'i aelodau fydd Llywydd y Corff Llywodraethol, Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog, tri chlerig a etholwyd gan y Pwyllgor Sefydlog o blith ei aelodau a thri aelod lleyg a etholwyd gan y Pwyllgor Sefydlog o blith ei aelodau. Gwahoddir Cadeiryddion unrhyw Gomisiwn, neu Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Sefydlog i gyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog pan drafodir gwaith y Comisiwn neu Is-Bwyllgor hwnnw, a chânt siarad mewn cyfarfod felly ond nid pleidleisio.

36.5 Bydd y Pwyllgor Sefydlog, dan ddarpariaethau paragraff 36.3, yn penodi Is-Bwyllgor Penodiadau, Is-Bwyllgor Drafftio a Chadeirydd Is-Bwyllgor Cyfreithiol a fydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Sefydlog, yn penodi aelodau eraill yr Is-Bwyllgor hwnnw pan fo angen.

37.1 Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn peri gwneud cofnod priodol o drafodion a chofnodion y Corff Llywodraethol ac argraffu yn Gymraeg a Saesneg at ddefnydd cyffredinol yr Eglwys yng Nghymru y rhannau hynny ohonynt y gorchmynnwyd eu cyhoeddi neu y credant hwy y dylid eu cyhoeddi.

37.2 Gall y Pwyllgor Sefydlog awdurdodi Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol i roi copi i unrhyw un o unrhyw ran o fersiwn Cymraeg neu Saesneg y Cyfansoddiad ar y telerau a farnont yn addas.

37.3.1 Bydd gan y Pwyllgor Sefydlog y gallu i fynd i unrhyw draul a fydd yn rhesymol angenrheidiol i gyflawni'r dyletswyddau a ymddiriedir iddo neu a osodir arno trwy hyn neu trwy unrhyw reol a wneir gan y Corff Llywodraethol yn y dyfodol.

37.3.2 Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn digolledu aelodau'r Pwyllgor Sefydlog am unrhyw draul yr eir iddi felly.

37.4 Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol at gadw'n ddiogel lyfrau a dogfennau a phob eiddo arall o'r fath a berthyn i'r Corff Llywodraethol.

*36. Powers and Duties*

36.1 The Standing Committee shall advise the Governing Body on matters of policy, including:

36.1.1 long term planning and the relationship of such planning to resources;

36.1.2 the establishment of priorities in the use of resources; and

36.1.3 the approval of budgets prepared by the Representative Body.

36.2 The Standing Committee shall have power to make regulations for the Church in Wales in accordance with the procedure for making regulations determined from time to time by the Governing Body.

36.3 Subject to the overall control of the Governing Body and to the provisions of this paragraph and of paragraphs 36.4 and 36.5, the Committee shall have the power to regulate its own procedures, including the appointment of working groups and sub-committees of its members, and the Committee may, from time to time and as it deems fit, co-opt any person or persons to serve on such working group or sub-committee.

36.4 The Standing Committee shall appoint a Business Sub-Committee, whose members shall be the President of the Governing Body, the Chairman of the Standing Committee, three clerics elected by the Standing Committee from among its members and three lay members elected by the Standing Committee from among its members. The Chairmen of any Commissions or Sub-Committees of the Standing Committee shall be invited to attend meetings of the Sub-Committee when business involving the work of such Commission or Sub-Committee is to be discussed, and they may speak at such meeting but not vote.

36.5 The Standing Committee shall appoint under the provisions of paragraph 36.3 an Appointments Sub-Committee, a Drafting Sub-Committee and the Chairman of a Legal Sub-Committee who shall appoint the other members of that Sub-Committee in consultation with the Chairman of the Standing Committee when occasion so requires.

37.1 The Standing Committee shall cause the proceedings and minutes of the Governing Body to be duly recorded and shall cause such parts of the same as shall be ordered, or which they think ought to be published, to be printed in English and Welsh, for the general use of the Church in Wales.

37.2 The Standing Committee may authorise the Secretaries of the Governing Body to supply to any person a copy of any part of the English or Welsh versions of the Constitution on such terms as they shall think fit.

37.3.1 The Standing Committee shall have power to incur any expense reasonably necessary to carry out the duties hereby or by any future regulation of the Governing Body entrusted to or imposed upon them.

37.3.2 The members of the Standing Committee shall be indemnified by the Representative Body against any expense so incurred.

37.4 The Standing Committee shall make all necessary arrangements for the safe keeping of the books and documents, and all other such property of the Governing Body.

## Rhan VI: Pwyllgorau eraill y Corff Llywodraethol

38. Bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i benodi pwyllgorau eraill o'i aelodau, ac i wneud rheolau a rheoliadau ynglŷn â galluoedd a gweithdrefnau pwyllgorau o'r fath; ar yr amod, oni roddwyd awdurdod ymlaen llaw, na bydd unrhyw weithred na phenderfyniad gan bwyllgorau o'r fath yn ddilys nes i'r Corff Llywodraethol ei ategu a'i gadarnhau.

39. Ac eithrio fel y trefnir yn benodol yma, os digwydd i aelod o bwyllgor beidio â bod yn aelod o'r Corff Llywodraethol, fe ystyrir bod yr aelod hwnnw wedi cilio trwy hynny o'i le ar y pwyllgor, a gall y Pwyllgor Sefydlog lenwi'r lle hwnnw a bydd yr aelod a benodir yn y dull hwn yn gweithredu hyd gyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol.

## Part VI: Other committees of the Governing Body

38. The Governing Body shall have power to appoint other committees of its members, and to make rules and regulations for the powers of and the procedure to be followed by any committee, provided that all acts and decisions of any such committee, unless previously authorised, must be ratified and confirmed by the Governing Body before becoming valid.

39. Except as herein expressly provided, if any member of a committee shall cease to be a member of the Governing Body such member shall be deemed thereupon to have vacated his or her place on the said committee, and such place may be filled by the Standing Committee, and any member so appointed shall act until the next meeting of the Governing Body.